# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG (CYS)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2025

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Arfon Wyn (Is-gadeirydd) (o 2:45yp)

**Yr Awdurdod Addysg**

Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Keith Roberts

**Yr Enwadau Crefyddol**

Mr Edward Morus Jones (Undeb Annibynwyr Cymru)
Y Parch Deborah Stammers (Undeb Bedyddwyr Cymru)

**Cynrychiolwyr Athrawon**

Mr Owain Roberts (Ysgol Cybi)
Mrs Manon Morris-Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

**Cynrychiolydd Anghrefyddol**

Sarah Lloyd (Y Dyneiddwyr)

**WRTH LAW:**

Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Mr Owen T Davies (Uwch Reolwr, Sector Cynradd) (Ymgynghorydd CGM i'r CYS)
Mr Phil Lord (Ymgynghorydd CGM Annibynnol)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Jenny Downs (Prifysgol Bangor)
Nia Lloyd Thomas (Ysgol Rhyd y Llan, Llanfaethlu)

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorydd Dylan Rees
Mrs Collette Owens (Yr Eglwys Gatholig)
Y Parch. Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru)
Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)
Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)
Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Dywedodd bod Elaine Green, a fu'n cynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru ar y CYS yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, wedi ymddeol o'r rôl. Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Green am ei chyfraniad gwerthfawr i'r CYS yn ystod y cyfnod hwnnw a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol.

## 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y CYS a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2025 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar y canlynol:

**Materion yn codi o’r cofnodion: -**

- Dywedodd yr Uwch Reolwr Sector Cynradd ei fod wedi anfon e-bost at gynrychiolydd yr Eglwys Gatholig ar y CYS er mwyn trafod y newidiadau i’r templed adroddiadau Adran 50 ac mae’n disgwyl am ymateb gan Mrs Owens.
- Dywedodd yr Uwch Reolwr Sector Cynradd fod y ddolen ar gyfer fideo Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg CCYSAGau Cymru wedi’i rhannu ag ysgolion yn y bwletin ysgolion ac ar SharePoint.
- Cadarnhawyd bod ‘Prosiect Llais yr Athro’ wedi’i rannu â holl ysgolion Môn yn y bwletin ysgolion.
- Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Sector Cynradd fod y Rhestr Chwarae Llywodraethwyr newydd wedi’i ychwanegu at y Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dywedodd fod pecyn wedi’i baratoi ar gyfer y Rhaglen Hyfforddi.
- Cadarnhawyd y byddai dyddiadau sesiynau hyfforddi Llywodraethwyr yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Hyfforddi Llywodraethwyr a’u rhannu maes o law.
- Esboniodd yr Uwch Reolwr Sector Cynradd nad yw’r fersiwn Cymraeg o’r cyflwyniad Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a’r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer athrawon cynradd wedi’i gwblhau eto. Dywedodd fod y dasg wedi’i chynnwys ar Raglen Waith yr Adran i’w chwblhau.
- Gan nad oedd y Swyddog Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Throseddau Casineb yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw i roi cyflwyniad ar ei gwaith gyda Heddlu Gogledd Cymru, **PENDERFYNWYD gwahodd y Swyddog i gyfarfod nesaf y CYS**.
- Cadarnhawyd bod yr Uwch Reolwr Sector Cynradd wedi anfon e-bost at Dr Gareth Evans-Jones, er mwyn gofyn am eglurhad o’r sefyllfa bresennol ym Mhrifysgol Bangor mewn perthynas â chydweithio, ac mae’n disgwyl ymateb, ac
- Anfonwyd copi o’r e-bost at Gomisiynydd y Gymraeg a Lynne Neagle, Gweinidog Addysg Llywodraeth Cymru.

## 3. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU (CCYSAGauC)

- Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod diwethaf y Gymdeithas, a gynhaliwyd yn rhithwir ar 6 Mawrth 2025 er gwybodaeth a chawsant eu nodi.

- **PENDERFYNWYD nodi’r llythyr at Lynne Neagle, AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, gan Gadeirydd CCYSAGauC ynglŷn â chefnogaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mandadol yng Nghymru.**

- Dywedodd Ymgynghorydd CGM y CYS fod y Cadeirydd wedi croesawu pawb i’r cyfarfod CCYSAGauC rhithwir oedd dan ofal Ynys Môn ar 2 Gorffennaf 2025.

Cyfeiriodd yr Ymgynghorydd CGM at gyflwyniad yn y cyfarfod ar Ymdeimladoldeb,

sef cangen o Ddyneiddiaeth ac Anffyddiaeth, oedd yn edrych ar y parch y mae pob unigolyn ymdeimladol yn ei haeddu. Gan fod Addysg Grefyddol bellach wedi troi'n Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae gan ysgolion fwy o ryddid i edrych ar wahanol systemau cred a byd-olygon anghrefyddol. Cyfeiriodd at Anffyddiaeth, sy'n cael ei rannu'n nifer o systemau cred gwahanol, ac roedd yn annog ysgolion i archwilio'r amrywiaeth eang o bynciau o fewn y systemau.

**4. YMWELIAD YR AELODAU AG YSGOL Y GRAIG, LLANGEFNI**

Ymwelodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Dylan Rees ag Ysgol y Graig, Llangefni ym mis Mawrth eleni. Dywedodd y Cadeirydd bod gwasanaeth rhithwir yn cael ei gynnal yn yr ysgol ar foreau Llun ac mae'n cael ei gynnal yn y dosbarthiadau. Esboniodd fod y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn Ysgol y Graig Fach bod yn ail wythnos, ar ddydd Gwener.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi a'r Cynghorydd Rees wedi mwynhau cymryd rhan yn y gwasanaeth boreol, pan fuodd y plant yn actio stori am yr Iesu. Esboniodd ei bod yn amlwg o'r cyflwyniad bod y plant yn mwynhau actio a dod â gwahanol elfennau addysgol at ei gilydd. Ar ddiwedd y perfformiad roedd yr ysgol wedi rhannu gwobrwyon i bob dosbarth a derbyniodd y plant sticeri er mwyn diolch iddynt am helpu. Ychwanegodd bod yr ysgol yn dathlu'r pethau bychain mewn bywyd ac roedd gweithredoedd y disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi a dywedodd bod hynny'n rhywbeth cadarnhaol i'w weld.

Roedd un o'r athrawon wedi esbonio bod yr ysgol yn defnyddio Beibl.net a dywedodd y byddai'n hoffi gweld y wefan yn cael ei diweddaru a bod pedwar pwrpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gael ar Hwb hefyd. Gofynnodd i'r Cadeirydd godi'r materion hyn gyda'r CYS.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mwynhau'r ymweliad ag Ysgol Rhyd y Llan yn fawr ac roedd y Cynghorydd Rees wedi mwynhau hefyd.

Dywedodd yr Ymgynghorydd CGM ei fod yn annog ysgolion i gadw addoli ar y cyd a CGM ar wahân, gan fod yr hawl i dynnu'n ôl yn berthnasol i CGM ond nid ar gyfer addoli ar y cyd. Dywedodd fod Maes Llafur Cytûn Ynys Môn wedi'i gynnwys ar Hwb fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau, sydd wedi cael ei ddigideiddio.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**5. CYFIEITHU'R ANGHYFIEITHADWY (yr hyn sydd mor ystyrlon nad oes modd ei gyfieithu)**

Derbyniwyd cyflwyniad gan Jenny Downs o Brifysgol Bangor ar yr effaith a gafodd cyfieithiad 1588 o'r Beibl i'r Gymraeg ar ysbrydolrwydd yng Nghymru, ei diwylliant ieithyddol a'i thirwedd. Dywedodd iddi archwilio naratif y cyfieithiad trwy 'Cynefin' a'i bod wedi ceisio deall ei ystyr dyfnach a sut mae'n cefnogi datblygiad ysbrydol dysgwyr yn y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau yn y Cwricwlwm i Gymru.

Esboniodd Ms Downs fod Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 wedi bod yn arwyddocaol o ran codi proffil y Gymraeg ac mae wedi esgor ar y newidiadau a arweiniodd at ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Dywedodd bod y pedwar pwrpas yn hyrwyddo'r

newid, a'u bod yn paratoi cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer byw mewn byd ansicr. Amlygwyd pwysigrwydd elfen fandadol CGM hefyd fel rhan o'r daith hon.

Cyfeiriodd Ms Downs at y fethodoleg a ddefnyddiodd yn ei hymchwil, gan ddefnyddio 'Cynefin' fel cyfrwng i archwilio chwe dimensiwn yn naratif y cyfieithiad. Mae pob adran yn cael ei rhannu'n dair rhan: hanes cyfieithu'r Beibl; sut oedd y cyfieithwyr wedi cael gafael ar lawysgrifau hynafol; barddoniaeth y beirdd oedd yn sylfaen i'r iaith. Dywedodd fod y cysylltiadau â'r cwricwlwm a'r 'Hyn sy'n Bwysig' mewn Dyniaethau yn cael eu harchwilio ac mae'n dangos sut y gall datblygiad ysbrydol dysgwyr ddatblygu trwy ddefnyddio cyd-destun y cyfieithiad fel thema. Er enghraifft, ystyried beth oedd wedi cymell William Morgan - ac yn benodol, dylanwad y dirwedd naturiol o'i amgylch, yn enwedig yn Nhŷ Mawr a Llanrhaeadr ym Mochnant, y lleoedd lle bu'n byw ac a ddylanwadodd ar ei feddyliau. Nodwyd y gall y gair 'Cynefin' ddisgrifio synnwyr o'r ysbrydol, y cyfrin, cydblethiad o dreftadaeth, hunaniaeth a diwylliant.

Dywedodd Ms Downs fod ei hadolygiad o lenyddiaeth wedi dechrau gan ddefnyddio 'Cynefin' yn y Cwricwlwm ac esblygiad 'Cymreigrwydd'. Mae hi wedi cynnal ymchwil pellach ar agweddau byd-eang 'Cynefin', gyda chysylltiadau penodol â Chwricwlwm Seland Newydd, sydd yn canolbwyntio ar naratif diwylliannol, ieithoedd a thraddodiadau tebyg.

I orffen, rhannodd Ms Downs y canfyddiadau canlynol o'i hymchwil:

- Mae'n hanfodol creu amgylchedd ddysgu ddiogel sy'n meithrin archwiliad mwy manwl o gwestiynau CGM a chefnogi datblygiad ysbrydol trwy hynny.
- Gellid defnyddio cyd-destun dilys y cyfieithiad ar draws y continwwm dysgu a Chymru;
- Pwysigrwydd galluogi ymarfer i esblygu mewn CGM;
- Bydd cam nesaf ymchwil Ms Downs yn edrych ar naratif a 'Cynefin'.

Gofynnodd yr Uwch Reolwr Sector Cynradd a fyddai'n bosib addasu gwybodaeth o'r cyflwyniad, sydd ar lefel academaidd, i lefel a fyddai'n addas ar gyfer yr ystafell ddosbarth a'i rannu gydag ysgolion? Mewn ymateb dywedodd Ms Downs yn sicr bod darn o waith y gallai ysgolion ei ddefnyddio sydd yn edrych ar stori'r Beibl Cymraeg a dywedodd y byddai'n hapus i helpu mewn unrhyw ffordd.

Dywedodd yr Ymgynghorydd CGM ei fod yn gwneud cais am gyllid ar hyn o bryd, gan Culham St Gabriels, er mwyn ariannu prosiect 'Cynefin' gydag athrawon fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau, er mwyn gweld beth allai Hanes, Daearyddiaeth a CMG eu cynnig gyda'i gilydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Downs ar ran y CYS am ei chyflwyniad hynod o ddiddorol ac addysgiadol.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 6. YMARFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG SY'N DATBLYGU MEWN YSGOL AR YNYS MÔN

Derbyniwyd cyflwyniad ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan Nia Lloyd Thomas,

Pennaeth Ysgol Rhyd y Llan, Llanfaethlu, ysgol a agorodd 8 mlynedd yn ôl.

Dywedodd y Pennaeth fod 116 o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd. Cyfeiriodd at arwyddair yr ysgol, 'Hwyl a Her yn ein Hafan Hapus' ac esboniodd mai dyma yw ei gweledigaeth ar gyfer yr ysgol. Dywedodd fod Ysgol Rhyd y Llan yn ysgol hapus, lle mae'r athrawon yn cael llawer o hwyl gyda'r plant. Amlygodd bwysigrwydd herio'r plant a chreu amgylchedd hapus yn yr ysgol.

Dywedodd y Pennaeth nad oedd gan Ysgol Rhyd y Llan lawer o lyfrau y llynedd oedd yn cynnwys tasgau'n gysylltiedig â CGM. Ers hynny, rhoddwyd blaenoriaeth i'r mater hwn a'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu'r ysgol ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nodwyd fod amser wedi'i ddyrannu i athrawon er mwyn darllen am CGM a deall gofynion y cwricwlwm. Nodwyd hefyd fod yr ysgol wedi cynnal archwiliad o adnoddau.

Fel rhan o broses hunanarfarnu'r ysgol, dywedodd y Pennaeth fod un o Lywodraethwyr yr ysgol yn gyfrifol am flaenoriaeth benodol, ac mae'r unigolyn yn ymweld â'r ysgol i edrych ar lyfrau a siarad â dysgwyr am eu profiadau.

Un o'r prif bwyntiau a ddysgwyd, yn ôl y Pennaeth, oedd bod CGM yn llawer mwy nag Addysg Grefyddol. Yr elfennau gwerthoedd yw ethos yr ysgol; sut mae'r plant yn gweithio o ddydd i ddydd; sut maen nhw'n ymddwyn tuag at ei gilydd.

Nodwyd bod y chwyddwydrau wedi bod yn ddefnyddiol iawn i athrawon a'u bod yn darparu fframwaith i adeiladu arno. Esboniodd y Pennaeth bod angen canolbwyntio ar CGM yn hytrach nag Iaith wrth wneud tasgau'n gysylltiedig â chrefydd. Dywedodd y Pennaeth mai'r cam nesaf fydd parhau i gynllunio tasgau diddorol a sicrhau fod dyfnder i'r dysgu.

Cyflwynodd y Pennaeth sioe sleidiau o waith y plant yn yr ysgol, gan gynnwys ymweliad ag eglwys leol, stori Arch Noa, Santes Dwynwen, y Samariaid Trugarog, gwahanol grefyddau a chredoau, natur ac ati.

Dywedodd aelod o'r CYS oedd wedi ymweld â'r ysgol fod y plant yn groesawgar iawn ac roedd yn hawdd siarad â nhw. Dywedodd fod y plant yn cael eu hannog i fod yn unigolion hyderus fydd yn tyfu i fod yn aelodau gwerthfawr o'u cymuned.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Thomas am ei chyflwyniad diddorol a'r cipolwg ar fywyd yn Ysgol Rhyd y Llan.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

**7. DIWEDDARIAD AR GREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG YN YSGOLION UWCHRADD**

Cyflwynodd Ymgynghorydd CGM y CYS adroddiad llafar ar ddatblygu rhwydwaith CGM yn Ysgolion Uwchradd ar Ynys Môn, fel y trafodwyd yng nghyfarfod diwethaf y CYS. Dywedodd iddo gyfarfod â Phenaethiaid yn y gwanwyn, cyn cael cyfarfod llwyddiannus iawn â phedwar Pennaeth Adran yn ddiweddar. Canolbwyntiodd y sgwrs ar yr elfennau mandadol yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyfer blynyddoedd 10 ac 11, nad yw llawer o ysgolion yn eu darparu. Trafododd yr athrawon yr effaith ar

ysgolion a sut y gellid gwella mynediad disgyblion at CGM dros gyfnod estynedig o amser gan ddefnyddio cyfnodau tiwtorial, diwrnodau anffurfiol, y Ganolfan AG ar gyfer cynadleddau. Dywedodd ei fod wedi anfon e-bost at athrawon a'i fod yn gobeithio parhau â'r rhwydwaith uwchradd y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

## 8. DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU

Cyflwynodd Ymgynghorydd CGM Annibynnol y CYS ddadansoddiad o adroddiadau arolygu diweddar Estyn. Gofynnodd y Cadeirydd pam nad yw Estyn wedi gwneud sylw am rai ysgolion yn eu hadroddiadau. Dywedodd yr Ymgynghorydd CGM nad yw Estyn ond yn adrodd ar ysgolion pan geir elfen negyddol mewn perthynas ag addoli ar y cyd neu Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Dywedodd fod y sylwadau cadarnhaol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a'u bod i'w croesawu. Nodwyd fod Estyn wedi darparu llai o sylwadau yn ei adroddiadau ar ysgolion ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu yn y broses ar gyfer llunio Adroddiad Blynyddol y CYS.

Roedd Estyn yn defnyddio'r Fframwaith Arolygu newydd am y tro cyntaf eleni, lle mae adroddiadau'n cael eu hymgorffori mewn un naratif ar gyfer pob pwnc, yn wahanol i'r dull systematig blaenorol.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.**
- **Y byddai'r Uwch Reolwr Sector Cynradd yn cysylltu â Arolygydd Lleol Estyn yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â'r ystyriaeth a roddir i CGM yn Fframwaith newydd Estyn a'r trefniadau adrodd.**

## 9. UNRHYW FATERION PENODOL I'R CYS

- Dywedodd yr Ymgynghorydd CGM y byddai'n paratoi Adroddiad Blynyddol y CYS ar gyfer 2024/25 yn ystod yr haf. Dywedodd ei fod wedi codi adroddiadau blynyddol fel mater yng nghyfarfod diwethaf CCYSAGauC a phenderfynwyd fod CCYSAGauC yn ystyried pwyso ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnwys yr adroddiadau blynyddol. Esboniodd bod angen i adroddiadau blynyddol gynnwys gwybodaeth y gall y CYS ac ysgolion ei defnyddio i wella CGM ar yr ynys. Dywedodd fod yr adroddiadau blynyddol yn adlewyrchu'r 12 mis diwethaf yn hytrach na'n edrych ymlaen.

  Dywedodd yr Ymgynghorydd CGM ei fod wedi awgrymu y dylai CCYSAGauC argymell i Lywodraeth Cymru y dylai ddiweddaru'r ffordd y mae'n edrych ar adroddiadau blynyddol. Awgrymodd bod y CYS yn gweithio ar 2 neu 3 pwynt bwled er mwyn amlinellu rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y gallai'r CYS, mewn 12 mis, fod â'i gynllun datblygu ei hun y gallai edrych yn ôl arno ac a fyddai'n cynnwys unrhyw weithredoedd. Nodwyd y gallai'r cynllun hwn fod ar waith erbyn mis Medi, dan arweiniad yr awdurdod lleol.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc ei fod yn cytuno â'r cynnig ac y byddai'n parhau i drafod â'r Ymgynghorydd CGM maes o law.

- Dywedodd Mr Edward Morus Jones y byddai’n ymddeol o’r CYS ar ôl 40 mlynedd o wasanaeth fel cynrychiolydd Annibynwyr Cymru. Dywedodd ei fod wedi mwynhau bod yn rhan o waith y CYS a dymunodd yn dda i’r aelodau a’r Pwyllgor yn y dyfodol.

  Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones am ei gyfraniad gwerthfawr i’r CYS dros nifer fawr o flynyddoedd. Dywedodd y byddai colled fawr ar ei ôl oherwydd ei fod mor brofiadol a dymunodd yn dda iddo yn y dyfodol.

## 10. CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y CYS ar 16 Hydref 2025.

Daeth y cyfarfod i ben am 3:35 pm

**Y CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**CADEIRYDD**